Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

Ystyriodd y Pwyllgor *Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006* yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2006.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad yng nghyswllt:

- A oes modd cynnwys sŵn hofrenyddion yn ystod digwyddiadau yng nghylch cyntaf y broses mapio sŵn.
- Amddiffyniad rhag sŵn sy'n deillio o ffyrdd.
- Y broses mapio sŵn ac ymarferion trin data.
- Y gost o weithredu Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd.

Wrth ymateb, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- Diben y rheoliadau yw lleihau effaith sŵn amgylcheddol.
- Nid oes modd cynnwys sŵn hofrenyddion yn ystod digwyddiadau yn y broses mapio.
- Bydd y gwaith o fapio sŵn traffyrdd a chefnffyrdd sydd uwchlaw'r trothwy a nodir yn y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol yn cael ei gynnwys yng nghylch cyntaf y broses mapio.
- Mae'r broses mapio'n golygu casglu data integredig a defnyddio modelau asesu sŵn.
- Mae arian ar gyfer y broses o fapio sŵn eisoes wedi'i gynnwys ym Mhrif Grŵp Gwariant cyllideb bresennol yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 heb unrhyw welliannau



Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Glyn Davies AC